

# Tyfu Gyda’n Gilydd

# Pecyn Adnoddau Gardd Ysgol

cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

# Pecynnau cymorth Tyfu Gyda'n Gilydd ar gyfer ysgolion

Yma yn Cadwch Gymru'n Daclus, rydym eisiau sicrhau bod prosiectau gardd ysgolion yn parhau i dyfu ymhell ar ôl y cyffro cychwynnol a bwrlwm y gweithgareddau i greu safle gardd newydd. Felly, rydym wedi rhoi'r canllaw defnyddiol hwn at ei gilydd, yn llawn cyngor, dolenni a fideos. Gobeithio y bydd o gymorth i chi fanteisio i'r eithaf ar eich gardd am flynyddoedd i ddod.

## Cysylltiadau â'r cwricwlwm – Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig

Gyda datblygiad y Cwricwlwm newydd i Gymru, rydym wedi nodi'r ffordd y gall ysgolion ymgorffori dysgu awyr agored i'w hamserlenni. Gall prosiectau tyfu bwyd gyd-fynd yn hawdd â chwe maes y cwricwlwm o ddysgu a phrofiad, fel a ganlyn:

- **Y Celfyddydau Mynegiannol** – ymarfer corff, creadigrwydd
- **Iechyd a llesiant** – iechyd corfforol a meddyliol, lles cymdeithasol, dylanwadau cymdeithasol cadarnhaol
- **Y Dyniaethau** – cynorthwyo dysgwyr i fod yn ddinasyddion moesegol, gwybodus; profiad o'r byd naturiol; annog ymchwilio ac archwilio
- **Iaith, llythrennedd a chyfathrebu** – ymestyn dealltwriaeth ieithyddol o'r byd naturiol. Defnyddiwch leoliadau awyr agored i sbarduno dychymyg llenyddol
- **Mathemateg a rhifedd** – cymhwyso mathemateg a rhifedd yn ymarferol e.e. gweithio allan faint o hadau i'w plannu mewn ardal benodol; meintioli ffenomena yn y byd ffisegol
- **Gwyddoniaeth a thechnoleg** – mae cymhwyso gwyddoniaeth yn ffisegol (bioleg yn arbennig), yn annog chwilfrydedd a chwilio am atebion i ddeall a rhagweld ffenomena.

## Adnoddau garddio i ysgolion

Rydym wedi gwneud rhywfaint o chwilota ac wedi canfod adnoddau garddio gwych wedi eu dylunio'n arbennig ar gyfer ysgolion:

- Getting started – taflen ffeithiau ar dyfu gyda phlant ysgol a theuluoedd
- How to set up a school garden – blog sydd yn ysbrydoli gan addysgwr amgylcheddol sydd yn gweithio yn ysgolion Llundain
- Adnoddau Garddio Ysgolion yr RHS – Mae gan y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol wefan yn llawn gwybodaeth ddefnyddiol yn arbennig i ysgolion
- Mwy o adnoddau i ysgolion – Mae Ymddiriedolaeth Edina wedi rhoi mwy o ddolenni defnyddiol ynghyd ar gyfer prosiectau ysgol
- Get your hands dirty – Canllaw gardd ysgol Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol


- [Lawrlwythiadau Am Ddim | Grow Your Own (growfruitandveg.co.uk)]
- [10 awgrym Jane Perrone ar gyfer tyfwyr newydd | Grow Your Own (growfruitandveg.co.uk)]

# Siart tyfu tymhorol

Nid yw bob amser yn hawdd tyfu mewn ysgolion, gan fod cymaint o’r tymor tyfu yn ystod gwyliau’r haf, felly dyma galendr tyfu gwych i’ch helpu i gynllunio eich lleiniau i gyd-fynd â’r tymor.

Gall y siart isod a chanllaw garddio yn ystod y tymor yr RHS (ar y dudalen nesaf) eich helpu i fanteisio i’r eithaf ar eich gardd. Mae’n bwysig cynllunio beth gallwch ei blannu a’i gynaeafu yn ystod amser ysgol, ond mae hefyd yn dda canfod pa lysiau y mae’r plant yn hoffi eu bwyta er mwyn iddynt allu mwynhau cymaint o’r cynnyrch â phosibl.

> **Lawrlwytho’r siart**



## Tyfu yn ystod y tymor

Mae'r RHS wedi rhoi Canllaw garddio yn ystod y tymor ysgol at ei gilydd – cynllun fesul mis o'r hyn i'w wneud yn eich gardd ysgol wedi ei ddylunio o amgylch y gwyliau. Cliciwch ar y dolenni isod am daflenni gwybodaeth penodol ar bob cnwd.

**Tymor yr Hydref**

| | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr |
|---|---|---|---|---|
| Hau/plannu | Letys (gaeaf), Nionod (setiau), Rhuddygl, Dail salad, Sbigoglys, Mefus (ymledwyr) | Ffa, Garlleg (ewinedd), Letys (gaeaf) Nionod (setiau), Pys Mefus (ymledwyr) | Ffa Coed / llwyni ffrwythau, Garlleg (ewinedd) Mafon (cansenni) | Coed / llwyni ffrwythau *Tu mewn:* Berwr, Microwyrddion, Mwstard |
| Cynaeafu | Moron, Ysgallddail, Ffa Ffrengig, Garlleg, Cennin, Letys, Nionod, Tatws (prif gnwd), Pwmpenni, Rhuddygl, Mafon, Sbigoglys, Gwrd, Tomatos | Ysgallddail, Ffa Ffrengig, Cennin, Letys, Garlleg, Tatws (prif gnwd), Pwmpenni, Mafon, Sbigoglys, Gwrd, Tomatos | Moron, Cennin, Letys, Sbigoglys | Ysgallddail, Cennin, Letys |

**Gaeaf / Tymor y gwanwyn**

| | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill |
|---|---|---|---|---|
| Hau/plannu | *Y tu mewn:* Berwr, Microwyrddion, Mwstard, Persli, | Ffa Pys Rhuddygl | Ffa, Moron, Garlleg (ewinedd) Cennin, Letys Nionod (setiau), Pys, Tatws (cynnar) Rhuddygl, Sbigoglys, Tomatos | Moron, Ysgallddail, Ffa Ffrengig, Cennin, Letys, Pys, Tatws (prif gnwd), Pwmpenni, Rhuddygl, Dail salad , Sbigoglys Gwrd, Tomatos |
| Cynaeafu | Cennin Letys | Cennin Letys | Ysgallddail, Cennin, Dail salad | Cennin, Dail salad, Sbigoglys |

**Tymor yr Haf**

| | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst |
|---|---|---|---|---|
| Hau/plannu | Rhuddygl, Ffa Ffrengig, letys, gwrd a phwmpenni, moron, tomatos. | Ffa dringo a Ffa Ffrengig, gwrd a phwmpenni, moron. | Letys, bresych crych a thrawsblaniadau cennin. | |
| Cynaeafu | Rhuddygl, ffa, moron, letys a salad arall, sbigoglys. | Rhuddygl, Ffa Ffrengig, ffa, pys, nionod, garlleg, moron, sbigoglys, tatws cynnar, letys a salad arall, mefus. | Rhuddygl, Ffa Ffrengig, ffa, pys, nionod, garlleg, moron, sbigoglys, tatws cynnar, letys a salad arall, tomatos, mefus. | |





# Syniadau ac awgrymiadau penodol

## Compostio

Bydd gwneud eich compost eich hun nid yn unig yn arbed arian ond gall hefyd helpu i leihau eich gwastraff ysgol. Gallwch ychwanegu gwastraff o'r ardd (dail, toriadau gwair, chwyn, deunydd planhigion) a gwastraff ysgol hefyd (papur wedi ei rwygo, cardfwrdd wedi ei dorri, croen llysiau heb eu coginio o'r gegin).

Mae llawer o ganllawiau compostio defnyddiol ar-lein – Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, Garden Organic, RHS.

A dyma drosolwg byr o'r hyn i'w gofio a pheidio ei wneud wrth gompostio:

**Cofiwch**

- ✓ Ychwanegu gwastraff o'ch gardd lysiau
- ✓ Ychwanegu papur wedi ei rwygo o'r ysgol
- ✓ Anelwch am 50-75% o wastraff 'brown' yn llawn carbon (papur, cardfwrdd, dail sych, brigau bach, toriadau gwrychoedd, gwellt)
- ✓ 25-50% o wastraff 'gwyrdd' yn llawn nitrogen (deunydd planhigion ffres, croen llysiau, chwyn, toriadau gwair)

**Peidiwch**

- × Ychwanegu gormod o'r un peth (e.e. gwair)
- × Ychwanegu bwyd wedi ei goginio
- × Ychwanegu chwyn bythol
- × Ychwanegu papur sgleiniog neu liw

## Cnydau Bythol


Mae planhigion sydd yn rhoi cynhaeaf o un flwyddyn i'r llall yn wych i'w cael mewn gerddi ysgol, fel perlysiau, llwyni a choed ffrwythau. Mae cnydau bythol yn wych am fod angen llai o gynnal a chadw arnynt ac mae ganddynt dymor cnydau hirach yn aml. Dyma rai dolenni ar gyfer mwy o wybodaeth am dyfu a gofalu am blanhigion bythol:

- Perennial Veg to Grow - BBC Gardeners World Magazine
- Herbs: growing / RHS Gardening



## Plannu ar y Cyd

Er mwyn gwneud y gorau o'r gofod, lleihau'r angen i chwynnu ac atal plâu, gallwch blannu rhai cnydau gyda'i gilydd – mae mwy o wybodaeth am blannu ar y cyd ar gael yma.



## Rheoli Plâu

Mae tyfu bwyd yn rhoi boddhad mawr, ond nid os yw'r holl wlithod yn ei gyrraedd gyntaf! Dyma rai awgrymiadau ar gyfer creu amgylchedd rheoli plâu integredig sydd o fudd i fioamrywiaeth yn ogystal â gwella eich cnydau.

- **Denu'r 'trychfilod' cywir** – rydym eisiau ysglyfaethwyr buddiol, fel brogaod, nadroedd defaid, adar a buchod coch cwta yn ein gerddi i helpu i reoli'r plâu. Mae darparu tai trychfilod a bwydwyr adar yn ffyrdd da o annog yr adar a'r pryfed cywir.
- **Drysu'r plâu** – mae blodau a pherlysiau ag arogl cryf yn dda i ddrysu ac atal plâu a gellir eu defnyddio fel rhan o blannu ar y cyd (uchod). Hefyd, gall tyfu pethau ar uchder gwahanol ei wneud yn fwy anodd i blâu ddod o hyd i'r planhigion y maent yn hoffi eu bwyta. Gallwch hefyd blannu planhigion 'aberthol' o amgylch eich cnydau i'r plâu eu bwyta er mwyn arbed eich llysiau.
- **Bwydo'r pridd** – mae pridd iach yn bwysig iawn i ddarparu amgylchedd cytbwys ar gyfer planhigion iach sydd yn gallu ymladd y plâu yn fwy llwyddiannus. Bydd gorchuddio'r ddaear â chompost yn helpu i gadw'r gwlybaniaeth a'r maeth i mewn i fwydo'r planhigion.
- **Creu rhwystrau** – plisg wyau, piben gopr, croen banana, croen oren...dyma rai pethau yn unig y mae pobl yn eu defnyddio i atal gwlithod a malwod rhag bwyta eu planhigion llysiau tyner. Gallai fod yn hwyl arbrofi i weld pa un sy'n gweithio orau.

## Arbed Hadau

Gall arbed hadau o'r llysiau yr ydych yn eu tyfu arbed arian yn ogystal â chreu cnydau gwell y flwyddyn nesaf. Nid yw hadau pob llysieuyn yn hawdd i'w casglu fodd bynnag, ac nid yw rhai'n creu'r un planhigyn y tro nesaf. Felly, dyma restr o rai hadau hawdd i'w harbed o'ch potiau llysiau:

- <u>Letys</u> – nid yw planhigion letys yn croesbeillio, felly bydd pob planhigyn yn creu hadau fydd yn tyfu'r un amrywiad eto. I arbed hedyn, gadewch rai planhigion 'bollt' i greu blodau, ac yna hadau. Mae pennau hadau letys yn mynd yn bluog fel dant y llew pan fyddant yn barod i'w cynaeafu. Casglwch yr hadau a'u rhwbio i wahanu'r hadau – cadwch nhw mewn lle oer a sych i'w plannu eto.
- **Pys a ffa** – nodwch y planhigyn mwyaf cynhyrchiol a gadewch rai codau pys ar y planhigyn i sychu allan. Pan fyddant wedi troi'n frown ac yn sych, casglwch y codau a gwagiwch yr hadau sych allan. Gallwch wneud hyn gyda phys, ffa dringo, ffa Ffrengig a ffa. Argymhellir eich bod ond yn plannu un amrywiad o bob pysen/ffeuen er mwyn sicrhau hadau o'r ansawdd gorau.

Os hoffech wybod mwy, mae llawer o <u>adnoddau rhagorol ar-lein</u> ac awgrymiadau ynghylch sut i arbed hadau o'r amrywiadau mwyaf anodd.

## Offer Gardd hanfodol

Mae cael yr offer iawn yn gwneud gwahaniaeth mawr. Os ydych wedi cael pecyn Datblygu Lleoedd Lleol ar Gyfer Natur oddi wrthym, byddwch wedi cael rhywfaint o offer i'ch rhoi ar ben y ffordd.

Dyma restr wirio gyflym o offer gardd 'hanfodol'

- Menig – meintiau plant ac oedolion
- Berfa

- Siswrn tocio – offeryn tocio rhagorol, peidiwch â'i ddefnyddio i docio canghennau sydd yn fwy trwchus na bys (nac i docio bys!)
- Ffyrch a rhawiau – gallwch gael 'border' gyda dolen fyrrach, sydd yn well ar gyfer plant iau
- Offer llaw – tryweli a ffyrch
- Can dŵr a rhosyn – mae'r rhosyn yn ddefnyddiol ar gyfer dyfrio hambyrddau hadau heb darfu arnynt yn ormodol
- Hof – offeryn gwych ar gyfer tynnu hadau rhwng eich llysiau
- Rhaca – ar gyfer lefelu eich pridd yn barod ar gyfer y tymor plannu

# Fideos garddio defnyddiol

Dyma rai sianeli garddio YouTube da i helpu gyda dysgu gweledol:

- RHS Campaign for School Gardening - YouTube
- Huw Richards - YouTube
- Garden Ninja: Lee Burkhill - YouTube

# Ymgyrchoedd gwych i gymryd rhan ynddynt

Mae rhai ymgyrchoedd a chynlluniau cenedlaethol rhagorol sydd yn ysbrydoli y gall ysgolion a phobl ifanc gymryd rhan ynddynt, dyma rai ohonynt:

- Peas Please |Food Foundation
- Eat Them To Defeat Them
- Caru Bwyd Casau Gwastraff
- 'Bwyd a Hwyl' Rhaglen Gwella'r Gwyliau Haf
- Children's Right2Food | Food Foundation
- Children's Food Campaign
- Increasing Vegetable Consumption | Food Foundation

# Gwefannau gwybodaeth gyffredinol

Dyma rai gwefannau sydd â llawer o adnoddau a chymorth ychwanegol ar gyfer prosiectau tyfu bwyd:

- Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol – llawer o adnoddau ar gyfer garddio mewn ysgolion ac yn y gymuned
- Y Gymdeithas Arddwriaeth Frenhinol – Ymgyrch RHS ar gyfer Garddio mewn Ysgolion
- Eco-Sgolion Cymru – dolenni ac ysbrydoliaeth ar gyfer Eco-bwyllgorau
- Garden Organic – mae ganddynt adran benodol gydag adnoddau addysgol
- Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored – adnoddau dysgu yn yr awyr agored
- Big Bocs Bwyd – adnoddau tyfu a choginio
- Every Flower Counts – prosiect gwyddoniaeth dinasyddion yn monitro blodau gwyllt i gyfrifo eich Sgôr Neithdar Personol

**Gobeithio bod y pecyn cymorth hwn yn ddefnyddiol, a'i fod yn annog staff a disgyblion i barhau i dyfu gyda'i gilydd.**

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13